

**GWEITHDY GORFODI YM MAES ADEILADAU RHESTREDIG*****Crynodeb o'r Ddeddfwriaeth Berthnasol***

Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990, yn enwedig adran 9, isadrannau 38 – 44, isadrannau 47–50, isadrannau 54 a 55 (fel y'i diwygiwyd gan adran 30 o Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016) ac adran 59	<p>Yn rhoi pwerau i gyflwyno Hysbysiadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i ymgymryd â gwaith ar adeiladau rhestredig, atal gwaith heb ei awdurdodi ac erlyn y rhai sy'n ymgymryd â gwaith heb awdurdod.</p> <p>Diwygiodd Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) y Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) drwy gynnwys darpariaeth ar gyfer cynnal a chadw adeiladau rhestredig sydd mewn cyflwr adfeiliedig (adran 31 o Ddeddf 2016 – er hynny, nid yw'r rhain wedi eu cychwyn hyd yma).</p>
Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, adran 215	<p>Yn rhoi pwerau i fynd i'r afael ag effaith andwyol sy'n deillio o dir neu adeilad y mae ei gyflwr yn wael a chymryd camau priodol mewn achos o beidio â chydymffurfio.</p>
Deddf Tai 1985, adran 17 Deddf Tai 2004, adran 132	<p>Mae'n caniatáu i ALLau gaffael adeiladau i'w dod â nhw yn ôl i ddefnydd fel anheddau a defnyddio Gorchmynion Rheoli Anheddau Gwag i fynd i'r afael â'u cyflwr.</p>
Deddf Adeiladu 1984, isadrannau 77–79	<p>Yn rhoi pwerau i gymryd camau i fynd i'r afael ag adeiladau y mae eu cyflyrau yn beryglus neu'n adfeiliedig.</p>
Deddf Cyfraith Eiddo 1925	<p>Yn caniatáu i ALLau orfodi gwerthiant adeiladau y mae ganddynt bridiannau arnynt er mwyn adennill costau (e.e. eu bod wedi ysgwyddo costau oherwydd gwaith i adeilad</p>



HOLLAND HERITAGE

	<p>rhestredig yn sgil methiant i gydymffurfio â Hysbysiad Gwaith Brys). Yn galluogi newid perchennog i un a fydd yn gofalu'n well am yr adeilad rhestredig.</p>
--	---